**Astudiaeth achos:**
Grant Adnewyddu Menter

**Rhanbarth**
Sir y Fflint

**Sector**
Twristiaeth

**Gwerth y prosiect**
£9,944







# TREE TOPS AND TRAIN TRACKS

*Campio, ond yn wahanol. Yn uchel yn y coed mewn coedwig yn Sir y Fflint mae yna brofiad gwirioneddol agos at natur.*

Yn 2018, prynodd Seb Willis a'i wraig Hannah goetir 18 erw ger Nannerch, yn ffinio â hen reilffordd a hen chwarel tywod. Roedden nhw'n chwilio am ffordd o fyw gwahanol, sy'n fwy addas i deuluoedd.

"Roedd e'n dawel ac yn angof, yn wyllt ac heb gariad," meddai Seb. "Ond gwelsom le o goed amrywiol, blodau brodorol a llu o anifeiliaid coetir a allai fod yn rhywbeth unigryw."

Rhoddodd dringo coeden y syniad i Seb o'r hyn a ddaeth yn Tree Tops and Train Tracks, coetir a reolir yn gynaliadwy a gwersyll eco gyda rhywbeth gwahanol iawn i'w gynnig sy'n cael ei lansio yn ystod haf 2023. "Mae bod yn y canopi o goed yn rhywbeth eithaf trawiadol ac arbennig," meddai. "Roedd yn brofiad roeddwn i eisiau ei rannu â llawer o bobl."

Cyflawnodd ei weledigaeth gyda chymorth grant Adnewyddu Menter, gan gaffael set o dair pabell coeden Tentsile. Yn hongian gyda strapiau rhwng boncyffion coed derw a llwyf, mae'r "cartrefi coed symudol" dramatig hyn yn brin iawn yn y DU.

Mae'r uned dair lefel fwyaf gyda hamog, gofod cymdeithasol a lle cysgu wedi'i gysylltu ag ysgol hyd at 20 troedfedd o uchder yn y canopi. Mae'n brofiad gwirioneddol agos at natur, ac mae'n uchel uwch ben eu chwe chae gwersylla lefel daear ac ardal gegin, toiled a chawod awyr agored wedi'i hadeiladu o bren a ddisgynnodd ar y tir.

"Mae'r grant wedi bod yn wych, yn anhygoel," meddai Seb. "Hebddo, dim ond y lleiniau safonol fydden ni'n gallu eu cynnig, felly fydden ni ddim wedi gallu creu'r safle gwersylla unigryw ac arloesol yma. Bydd hyn yn cael effaith enfawr ar ein trosiant gan fod modd cynnig y pebyll coed ar gyfraddau premiwm."

Talodd hefyd am ymgynghoriad gyda'r Greener Camping Club, a gafodd ddigon o argraff ynghylch eco-gymwysterau'r cwmni i ardystio'r safle. Roedd Tree Tops and Train Tracks yn cyflogi arbenigwr gwersylla a glampio i adeiladu eu brand, dylunio logo a chreu gwefan gyda system rheoli sianel soffistigedig i ddelio ag archebion.

"Mae hyn yn golygu ei bod yn hawdd i'n gwesteion archebu lle, ac mae'n lleihau ein gwaith gweinyddol gymaint â phosibl, er mwyn i ni allu canolbwyntio ein sylw ar adeiladu'r busnes," meddai Seb. "Yn y dyfodol, byddwn yn edrych ar bethau mwy cyffrous fyth yn y coed.

"Y syniad o'r cychwyn oedd ein bod eisiau bod yn wahanol ac yn anturus. Rydyn ni'n mynd i ddechrau gwneud cais am ganiatâd cynllunio y flwyddyn nesaf ar gyfer rhai anheddau unigryw."